




Ministry
of Justice

Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol: Contractau Gwaith Dyletswydd Troseddol

Cyhoeddir yr ymateb hwn ar 27 Tachwedd 2014



Crynodeb Gweithredol

- (i) Mae caffael gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol (cystadleuaeth trosedd) yn rhan o becyn ehangach o ddiwygiadau yn y Rhaglen Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol. Nod y polisi cystadleuaeth trosedd yw darparu gwasanaeth cymorth cyfreithiol troseddol sy'n deg ac yn gynaliadwy. Bydd yn gwneud hynny trwy gynnig mwy o gyfleoedd i sefydliadau i raddio i fyny i gyflawni arbedion maint a darparu gwasanaeth mwy effeithlon sy'n sicrhau y gall pobl sy'n cael eu cyhuddo o drosedd dderbyn cyngor a chymorth ac, os oes angen, cynrychiolaeth. Mae'r model yn rhoi hyder i sefydliadau fuddsoddi yn yr ailstrwythuro sy'n ofynnol gan wybod y byddant yn derbyn mwy o waith a gwaith mwy sicr. Mae'r dull contractio hwn hefyd yn rhoi'r sicrwydd sydd ei angen i'r Llywodraeth y bydd y rhai a gyhuddir o drosedd yn cael mynediad at gyfreithiwr trwy gynnal gwasanaeth cymorth cyfreithiol cynaliadwy. Mae'r bwriad hwn wedi bod yn gyson ers i ni ymgynghori am y tro cyntaf yn Ebrill 2013.
- (ii) Roedd ffocws yr ymgynghoriad hwn ar adroddiadau KPMG ac Otterburn, y rhagdybiaethau y dibynnwyd arnynt yn yr adroddiadau hynny a chymryd penderfyniad newydd ynghylch nifer y contractau Gwaith Darparwr ar Ddyletswydd (DPW) i'w cynnig. Serch hynny, roedd ymatebwyr yn defnyddio'r ymgynghoriad hwn hefyd i fynegi gwrthwynebiad cyffredinol i'r model contractio deuol. Rydym yn cydnabod bod gan lawer o ymatebwyr farn gref ar y pwynt hwn. Ond mae ymatebwyr i raddau helaeth yn mynegi barn a ystyriwyd mewn ymgynghoriadau blaenorol ac nid ydynt wedi darparu tystiolaeth newydd nad yw'r model contractio deuol yn hyfyw.
- (iii) Rydym wedi ystyried barn yr ymatebwyr yn ofalus wrth gyrraedd y casgliadau a nodwyd yn yr ymateb hwn. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn anghytuno gyda thybiaethau KPMG. Mynegodd llawer o'r ymatebion farn am wahanol ragdybiaethau. Ond nid oedd y rhain bob amser yn rhoi darlun cyson wrth gymryd i ystyriaeth y cydadwaith rhwng y rhagdybiaethau hynny.
- (iv) Er mwyn helpu i lunio penderfyniad terfynol am nifer y contractau fe wnaethom gyflogi KPMG i:
 - Ddarllen y deunydd ymateb i'r ymgynghoriad (crynodeb o'r pwyntiau allweddol a godwyd gan ymatebwyr, ymatebion gan y prif gyrrff cynrychioliadol a dadansoddiad cryno o'r ymatebion a dderbyniwyd drwy'r both LCCSA);
 - Nodi tystiolaeth a geir yn y dogfennau sy'n ymwneud â'r tybiaethau a ddefnyddiwyd fel sail i'r model; a
 - Chymharu'r dystiolaeth honno i'r hyn a welodd neu a glywodd KPMG yn flaenorol ac ystyried y graddau y mae hyn yn newid y farn am y rhagdybiaethau.
- (v) Gwnaeth KPMG asesiad i weld a yw'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cynnig unrhyw dystiolaeth newydd a fyddai'n gwneud iddynt ddiwygio eu hadroddiad gwreiddiol ac maent wedi dod i'r casgliad, ac eithrio'r rhagdybiaeth ynghylch maint y gwaith, nad yw ymatebwyr wedi darparu unrhyw dystiolaeth newydd a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol iddynt newid eu hadroddiad. Argymhellodd KPMG y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r rhagdybiaeth ynghylch maint y gwaith

yn y dyfodol, ac mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gwneud hyn. O ganlyniad i'r gwaith pellach hwn, rydym wedi penderfynu tendro am gyfanswm o 527 o gontractau. Ar ôl ystyried y pryderon a godwyd ynghylch cymhwysu'r model contractau deul i ardaloedd gwledig, i gydnabod yr angen i deithio ar draws ardaloedd daearyddol, rydym hefyd wedi penderfynu talu am amser teithio dros 1.5 awr. Ar ben hynny, byddwn yn caniatáu i'r rhai sydd â swyddfa yn un o'r ardaloedd caffael 'rhanedig' i wneud cais yn yr ardal arall os ydynt yn dymuno, er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd yn y ffordd y mae sefydliadau yn darparu gwasanaeth.

- (vi) Rydym yn lansio ymarferiad tendro heddiw ar gyfer gwaith y darparwr ar ddyletswydd. Ym mis Mehefin 2015, bydd cynigwyr yn cael gwybod am ganlyniad y tendr a bydd gwasanaethau yn dechrau o dan y contractau newydd yn Hydref 2015. Rydym yn bwriadu gweithredu'r ail ostyngiad ffioedd, o hyd at 8.75% ym mis Gorffennaf 2015, yn amodol ar yr ystyriaethau pellach yr ydym eisoes wedi dweud y byddwn yn ymgymryd â hwy.